# AMSER I DRETH: GWEITHDY CHWECHED DOSBARTH AR GYFIAWNDER TRETH

**Taflenni gwaith ac astudiaethau achos**

cymorth cristnogol

**Ceir mwy o adnoddau ar christianaid.org.uk/learn**


© Cymorth Cristnogol 2012

# AMSER I DRETH - TAFLEN WAITH 1

## Bywydau iach a hapus

**Beth sydd ei angen ar bobl i fyw bywydau iach a llawn?**





**Enw**

**Oed**

**Rhyw**

**Gwlad**

Ceir mwy o adnoddau ar christianaid.org.uk/learn

© Cymorth Cristnogol 2012

# AMSER I DRETH - TAFLEN WAITH 2

## Gwario, gwario, gwario
## Gwariant llywodraeth ganolog y DU*

Adran addysg: **Gwariant amcan £... Gwir wariant £...**

Llog ar fenthyciad: **£44b**

Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol: **£38b**

Adran Iechyd: **Gwariant amcan £... Gwir wariant £...**

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: **£3b**

Adran dros Ddatblygiad Rhyngwladol: **Gwariant amcan £... Gwir wariant £...**

Adran Drafnidiaeth: **£12b**

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: **£9b**

Gwariant a ddatganolwyd i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon: **£60b**

Adran Busnes, Blaengaredd a Sgiliau: **£24b**

Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon: **£7b**

Adran Gwaith a Phensiynau (sy'n cynnwys budd-daliadau a phensiynau): **£161b**

Y Weinyddiaeth Amddiffyn: **Gwariant amcan £... Gwir wariant £...**

Swyddfa Gartref: **£10b**

Adran Ynni a Newid Hinsawdd **Gwariant amcan £... Gwir wariant £...**

Cyllid a Thollau: **£46b**

- mae'r graffig yma'n dangos gwariant cyhoeddus lledgywir gan rai o adrannau mwyaf llywodraeth ganolog y DG yn 2010/2011; nid yw'n dangos cyfanswm gwariant y llywodraeth ar draws pob adran a swyddfa.
- mae'r ffigyrau'n lledgywir ac fe'u hatgrynnwyd i'r biliwn agosaf.
- seilir y wybodaeth a ddarperir yma ar infograffig manwl a gyhoeddwyd ym mhapur newydd, *The Guardian;* http://image.guardian.co.uk/sys_files/Guardian/documents/2011/11/08/Public_spending_2710.pdf



© Cymorth Cristnogol 2012

# AMSER I DRETH - TAFLEN WAITH 3

## Cysylltwch y ffeithiau!

70 mlynedd yw disgwyliad bywyd yn y wlad hon.

49 mlynedd yw disgwyliad bywyd yn y wlad hon.

Mae 45 y cant o holl bobl y wlad hon ddim yn cael digon o faeth.

Mae tua 99 y cant o oedolion y wlad hon yn llythrennog.


Mae graddfeydd llythrennedd ymhlith oedolion y wlad hon yn 74 y cant.

Cyfrifir hon yn wlad incwm-ganolig.

Prif allforion y wlad hon yw tanwydd mwynau a rhannau ar gyfer adweithyddion niwclear.

Y wlad hon yw'r bumed brif allforiwr o goffi a siwgr yn y byd.







Mae disgwyliad bywyd yn y wlad hon yn 79 mlynedd.

Mae bron i 50 y cant o blant yn y wlad hon wedi eu heffeithio'n ddifrifol gan ddiffyg maeth dwys.

Mae graddfeydd llythrennedd ymhlith oedolion y wlad hon yn 70 y cant.

Tair miliwn o bobl yn y wlad hon, llai na 5 y cant o'r boblogaeth gyfan, sy'n dioddef o ddiffyg maeth.

Mae gan y wlad hon adnoddau naturiol helaeth iawn; hi yw'r seithfed mwyaf drwy'r byd yn cynhyrchu copr ac mae hefyd yn gyfoethog mewn cobalt (y mineral a ddefnyddir i wneud ffonau symudol).

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r wlad hon wedi mwynhau cyfnod parhaus o dwf economaidd.

Bu economi'r wlad hon mewn dirwasgiad ddwywaith rhwng 2008 a 2012


Ceir mwy o adnoddau ar christianaid.org.uk/learn

© Cymorth Cristnogol 2012

# AMSER I DRETH - TAFLEN WAITH 4

## Mae rheolau treth yn bananas

### Sut mae hafanau treth yn cuddio’u costau




**Mae rhai cwmnïau anegwyddorol yn manteisio ar y cyfrinachedd ariannol a ddarperir gan hafanau treth. Crëir costau ffug mewn hafan dreth er mwyn cuddio’r elw a wneir ac osgoi’r trethi sy’n ddyledus. Mae hyn yn eu galluogi i osgoi trethi yn y wlad lle cynhyrchir y cynnyrch yn ogystal â’r wlad lle’u gwerthir. Dyma enghraifft o sut gall banana deithio drwy hafan dreth ar bapur, ond gall hyn ddigwydd gydag unrhyw nwydd neu wasanaeth.**

cymorth cristnogol

Ceir mwy o adnoddau ar christianaid.org.uk/learn

© Cymorth Cristnogol 2012

# AMSER I DRETH ASTUDIAETH ACHOS 1


Cymorth Cristnogol/Hannah Richards

## Astudiaeth achos: Cresencia Hernandez

**Cresencia Hernandez, 50, Guatemala**

Mae gan Cresencia naw o blant rhwng 11 a 32 oed. Mae ei thŷ wedi ei wneud o friciau adobe (mwd) a tho o ddail palmwydd. Mae ynddo ddwy ystafell, un sy'n gegin lle mae'r waliau'n ddu oherwydd y mwg o'r tân coed agored, a'r llall yn ystafell wely y mae hi'n ei rhannu gyda'r plant. Mae ganddi ddarn bach o dir i dyfu bwyd ac mae wedi plannu coed ffrwythau a gardd lysiau fechan er mwyn cynnal ei hunan a'i theulu.

### Stori Cresencia:

Roedd fy merch Elena yn y clinic lleol am 35 diwrnod oherwydd diffyg maeth, roedd hi wedi chwyddo'n ofnadwy. Dim ond cnawd ac asgwrn oedd hi. Roeddwn yn gwybod ei bod hi'n wael. Dywedodd y meddyg fod rhaid iddi hi aros yno, felly dyma fi'n ei gadael ond roeddwn yn mynd yn ôl i'w gweld. Saith oed oedd hi. Doeddwn i ddim eisiau iddi hi farw.

Daeth fy merch ieuengaf gyda mi pan es ag Elena i'r clinig. Roeddwn yn ofnus iawn, roeddwn yn meddwl ei bod am farw. Roedd rhaid croesi drwy'r afon i gyrraedd y clinig, does yna ddim pont. Roeddwn yn cario Elen ac yn gafael yn llaw ei chwaer. Bu bron i'r dŵr eu cario i ffwrdd. Credais y byddai'r ddwy yn marw.

Yr hyn sydd fwyaf ei angen arnom yma yw siwgr. Mae'n anodd cael digon i'r teulu. Dyma fy nghartref bach i, a'r ychydig dir gellir ei weld. Dyma beth sydd gen i, pump tarea [llai nag acer] o india-corn. Nid yw byth yn ddigon.

Mae problem enfawr am nad yw pobl yn cael digon i'w fwyta. Does dim digon o arian. Mae pawb yn ei chael yn anodd. Dylai'r llywodraeth helpu'r plant, mae angen siwgr a sebon arnynt. Maent yn rhoi brechiadau iddynt pan maent yn dod ond dydi hynny ddim yn ddigon.

Rydym yn bwyta'n wael. Yn y cyfarfodydd [sy'n cael eu trefnu gan elusen leol], maent yn ein dysgu am lysiau meddyginiaethol er mwyn i ni arbed arian ar feddyginiaethau. Os oes argyfwng mae gennym y planhigion yma. Rwyf fi eisiau dysgu popeth, er mwyn gwneud yn siŵr fod y plant yn cael y bwyd sydd ei angen arnynt i fod yn iach.

Ar hyn o bryd mae gennym fwyd. Gorffennaf ac Awst yw'r amser anodd. Mae'r plant yn dioddef. Maent yn bwyta ddwywaith y dydd yn ystod y misoedd hynny. Maent yn cael hanner yn y bore i'w cadw i fynd. Credwch chi fi, rydych yn rhoi'r bwyd sydd gennych i'r plentyn yna. Cael plentyn sy'n newynu yw'r math gwaethaf o dlodi.

Oedolion ydym ni felly rydym yn gallu byw ar fwyta ddwywaith y dydd ond mae eich plentyn yn crïo felly rhaid i chi roi beth bynnag sydd gennych iddo. Mae'n help pan fydd y cnydau'n dechrau aeddfedu ar ddechrau'r cynhaeaf.

Rhagfyr, Ionawr, Chwefror mae'n anodd bwyta unrhyw lysiau gan fod dŵr yn brin.

Bob dydd byddwn yn mynd i nôl dŵr, dair gwaith y dydd. Rwy'n poeni na fydd digon o ddŵr i'r planhigion. Os ydynt yn bwrw gwreiddiau does dim angen cymaint o ddŵr arnynt.

Rwy'n dysgu mwy a mwy am beth sydd ei angen ar y plant er mwyn cael digon o faeth. Rwy'n dweud wrth y plant pa blanhigion fydd yn eu helpu nhw, ac a dylen nhw eu rhoi i'w plant.

### Trafodwch:

- Beth yw prif anghenion Cresencia?
- Pa rai ohonynt sy'n cael eu diwallu a pha rai sydd heb eu cwrdd?



© Cymorth Cristnogol 2012

# AMSER I DRETH
# ASTUDIAETH ACHOS 2



Cymorth Cristnogol/Hannah Richards

## Astudiaeth Achos: Jaqueline Vicente

**Jaqueline Vicente, 12, Guatemala**

Dywed mam Jaqueline, Blanca Gonzalez Vicente (29):

Mae fy merch hynaf ar fin gorffen ysgol gynradd ond does dim ysgol uwchradd yn agos iddi hi fynd iddi. Does gennym ddim ffordd o'i hanfon i'r ysgol nawr, gan na allwn ni fforddio talu am y drafnidiaeth na chwaith fforddio iddi hi fyw i ffwrdd. Mae hi'n ferch alluog, dydi hi erioed wedi gorfod ail-eistedd blwyddyn.

### Stori Jaqueline

Mae gennym dri gwely yn y tŷ. Rwyf fi'n cysgu gyda fy chwaer ac mae fy mrodyr i gyd yn rhannu gwely arall.

Rwy'n codi am 5 y bore. Rwy'n helpu mam i lanhau. Does gennym ni ddim golau trydan felly rydym yn deffro pan fydd hi'n dechrau gwawrio. Rydym yn codi ac yn ysgubo'r llawr ac yn malu'r india-corn. Yna rwy'n ymolchi. Mae yna dap dŵr. Mae'r dŵr yn dod o nant yn y mynydd. Rwy'n gwisgo ac rwy'n mynd i'r ysgol o 7.30 y bore tan 12 neu 12.30 y prynhawn, yna rwy'n mynd i gasglu coed i'r stôf. Weithiau rwy'n mynd i gasglu india-corn. Rwy'n gwneud fy ngwaith cartref ac yna rwy'n malu mwy o india-corn yn barod i swper.

Weithiau rydym yn cael wyau i frecwast. Rwy'n yfed coffi os yw ar gael a bwyta ffa a tortillas. Does gennym ni ddim teganau.

Rydym yn bwyta swper am 6 yr hwyr.

Weithiau mae mam yn dod â chorizo. Mae fy mrawd yn mynd i'r dref weithiau i werthu bwyd.

Rydym yn mynd i'r clinig os ydym yn sâl ac maent yn gofalu amdanom. Mae pobl yn mynd yn sâl gyda chur pen, peswch a'r ffliw.

Mae'r ardd lysiau'n hwyl. Mae ffens o'i amgylch i rwystro'r ieir rhag mynd i mewn a bwyta'r planhigion. Fe wnaethom ni dyllau bach er mwyn plannu'r hadau, rydych yn rhoi pridd drostynt ac yna maen nhw'n egino. Dim ond wyth diwrnod mae'n cymryd i mora dyfu cyn i chi allu ei fwyta.

Mae mora'n eithaf chwerw. Yn ôl mam mae'n llawn o fitaminau. Dydyn ni ddim yn bwyta cig, does gyda ni ddim llawer o laeth na chaws, ac rydym ond yn bwyta cyw iâr bob rhyw ddeufis, felly mae'n bwysig iawn i ni fwyta'r llysiau yma.

Ar un adeg, byddem ond yn cael llysiau pan fyddai mam wedi bod yn y dref, dwy neu deirgwaith y mis.

Byddem yn bwyta orennau, grawnffrwyth, mango, leim a zapote – unrhyw fwyd oeddem ni'n gallu cael hyd iddo.

Mae Bethania [elusen leol] yn dod â bwyd i ni ac maen nhw wedi ein helpu gyda'r ardd lysiau - beth i'w wneud - a rhoi hadau i ni. Mae'n wych pan mae'r bag bwyd yn cyrraedd. Rwyf fi eisiau ei fwyta i gyd ar unwaith, ond mae mam yn dda am wneud iddo barhau.

### Trafodwch:

- Beth yw prif anghenion Jaqueline?
- Pa rai ohonynt sy'n cael eu diwallu a pha rai sydd heb eu cwrdd?



© Cymorth Cristnogol 2012

# AMSER I DRETH
# ASTUDIAETH ACHOS 3


Cymorth Cristnogol/Charlotte Marshall

## Astudiaeth Achos: Golden Kainda

**Golden Kainda, 38, pentref Musangezhi, ger Solwezi yng ngogledd-orllewin Zambia.**

Mae pentref cyfan Golden yn cael ei adleoli i wneud lle ar gyfer safle mwyngloddio wraniwm newydd, sy'n berchen i gwmni Kalumbila Minerals Limited. Ar yr wyneb mae'n ymddangos yn dda i'r ffermwyr yn y pentref yma, lle mae'r mwyafrif yn tyfu cassava. Mae'r cwmni'n cynnig eu hadleoli i dir a chartrefi newydd, ac iawndal am eu cnydau; ond mae'r ffermwyr yn amheus ac, ar hyn o bryd, maent yn gwrthod gadael eu tir. Mae'n cymryd dwy flynedd i cassava aeddfedu, ac nid yw'r iawndal sy'n cael ei gynnig cystal â'r pris gallant ei gael am eu cnydau yn y farchnad.

### Stori Golden:

Rwy'n briod gyda dau o blant, ond mae gen i hefyd llawer sy'n dibynnu arnaf gan mai fi yw'r hynaf yn y teulu. Cyn iddynt hyd yn oed ddweud ble roeddynt am ein hadleoli, fe ofynnodd cwmni Kalumbila inni am gynaeafu a diwreiddio ein planhigion cassava. Mae hyn wedi effeithio ar ein bywoliaeth gan ein bod yn dibynnu ar dyfu cassava yn y pentref yma. Rydym wedi gwrthod gwneud hyn.

Cynigiodd y cwmni iawndal i ni am y cassava a ddiwreiddiwyd ar sail prisoedd rhyngwladol. Er syndod i ni, rhoddodd y swyddogion llywodraeth yn Solwezi y ffigurau iddynt heb ymgynghori gyda ni. Mae'r prisiau'n llawer is na'r rhai rydym yn cael am werthu ein cassava. A nawr fyddwn ni ddim yn gallu tyfu cassava am dair blynedd, felly beth maen nhw'n feddwl wnawn ni fwyta yn ystod yr amser hwnnw? Hyd yn oed wedi iddynt ein hadleoli, mae cassava'n cymryd blwyddyn-a-hanner neu ddwy flynedd i aeddfedu. Mae hynny'n golygu na fydd gennym unrhyw beth i'w fwyta na'i werthu am y bum mlynedd nesaf. Rydym yn bwyta bob dydd, felly sut maen nhw'n disgwyl i ni fyw? Dylen nhw roi bwyd i ni yn ystod y cyfnod hwn, gan mai nhw wnaeth i ni godi ein cassava. Ydi hyn yn deg, mewn gwirionedd? Nid ydym erioed wedi gorfod begian am fwyd ond nawr, bydd y mwyafrif ohonom heb sicrwydd o fwyd.

Rydym hefyd yn poeni achos mae'r ardal lle maent yn bwriadu ein hadleoli'n rhan o'u tir hwy, ac maent wedi cyfyngu'r tir ffermio traddodiadol. Hyd yn oed os gai'i 10 hectar ganddynt, ni fydd yn ddigon. Yma rwy'n gallu ehangu o leiaf tri hectar bob blwyddyn, ond fydd hynny ddim yn bosibl wedi iddynt ein hadleoli. Fe ddylent roi iawndal cyfatebol i ni. Hefyd mae tir lle rydym ar hyn o bryd yn werthfawr, felly dylent roi iawndal cyfatebol i ni. Byddan nhw'n cael llawer o gerrig o dir fy hynafiaid a gwneud elw. Felly, mae ond yn iawn eu bod yn rhoi'r iawndal cywir i mi.

Rydym hefyd angen iddynt adeiladu ysgolion ac ysbytai da i ni, gydag adeiladau modern. Maen nhw'n dadlau nad yw'r pethau hynny yma nawr - ond rhaid iddynt dalu am beri trafferth i ni a gwneud cymaint o arian o'n mineralau ni. Dylai'r buddsoddiad maen nhw'n sôn amdano gael ei ddangos mewn pethau go iawn.

Rydym hefyd wedi trafod mater cartrefi. Os oes gennych bedwar tŷ, dim ond un fyddan nhw'n ei adeiladu i chi yn yr ardal newydd ac maen nhw'n dweud y byddant yn rhoi arian i ni am y tai eraill yn unol â'r raddfa fydd yn cael ei osod gan y llywodraeth. Mae hynny'n annheg iawn o ystyried y math o dai sydd gennym.

Rydym yn teimlo fod y llywodraeth yn ein hesgeuluso. Dydyn nhw ddim hyd yn oed yn dod i'r cyfarfodydd a gawn gyda'r cwmnïau mwyngloddio, a dydyn nhw ddim yn ymgynghori â ni wrth wneud penderfyniadau.

Mae yma broblemau mwy na mater adleoli i'w hystyried. Fe ddylem ni ofyn pam fod cwmnïau'n cael gwneud hyn? Pam nad oes cytundeb rhwng y llywodraeth a'r cwmnïau ynglŷn â threth a breindaliadau er mwyn sicrhau ein bod ni fel cymuned yn cael cynnig teg?

### Trafodwch

- Beth yw prif anghenion Golden?
- Pa rai ohonynt sy'n cael eu diwallu a pha rai sydd heb eu cwrdd?



© Cymorth Cristnogol 2012

# AMSER I DRETH
# ASTUDIAETH ACHOS 4




## Astudiaeth Achos: Anna Banda

**Anna Banda, 34, pentref Chipembi, Zambia**

Bu Anna'n sâl yn gyson am nifer o flynyddoedd ac roedd yn amau ei bod yn HIV positif, ond roedd yn gwrthod ceisio help oherwydd ofn. 'Mae pobl yn aros adref oherwydd ofn a ddim am gael prawf. Yn y diwedd maent yn marw yn eu cartrefi,' medd Anna. 'Ceir stigma yn ein cymunedau ynglŷn â bod yn fethedig - dydych chi o ddim defnydd i'r gymuned wedyn. Maent hefyd yn cysylltu'r broblem â'r fasnach ryw.'

O'r diwedd, pan nad oedd yn gallu dioddef mwy, aeth Anna am brawf gwirfoddol a chyngor mewn clinig yn Chipembi, sy'n cael ei rhedeg gan Cymdeithas Iechyd yr Eglwysi yn Zambia (CHAZ). Yn 2003 dwedwyd wrthi ei bod hi'n HIV positif. 'Yn wahanol i'r hyn roeddwn i wedi disgwyl clywed, dwedon nhw wrthyf i fod yn agored gyda'r teulu, bod yn gadarnhaol a bwyta'n dda,' meddai Anna. 'Dwedais wrth fy mrawd hynaf yn syth - a dwedodd ef wrtha'i am beidio poeni, fod y pethau hyn yn digwydd ac y byddai yn fy helpu. A dweud y gwir, ces ymateb cadarnhaol gan fy holl deulu a ffrindiau. Doeddwn i ddim yn disgwyl hynny.'

Mae Anna'n cydnabod bellach y byddai cuddio ei statws, neu barhau heb y prawf, wedi bod yn ddiwedd y byd iddi hi oherwydd ni fyddai wedi cael y gefnogaeth oedd ei angen arni. Ymunodd Anna gyda grŵp cefnogi, a drefnwyd gan CHAZ, cyn gynted ag y cafodd wybod ei statws, ac wedi cael cyngor y meddyg fe ddilynodd rhaglen maeth CHAZ, sy'n dysgu pobl sy'n byw gyda HIV sut i ffermio'n organig. Mae Anna a nifer o rai eraill ar y rhaglen wedi dechrau gardd organig eu hunain yn y gymuned.

'Cyn i mi ymuno doeddwn i ddim yn cael digon o fwyd – roedd rhaid i mi brynu popeth a doeddwn i ddim yn gallu fforddio llysiau a ffrwythau. Nawr rwy'n eu tyfu' medd Anna. 'Roeddwn yn ddibynnol iawn ar berthnasau. Bellach rwy'n llawer mwy annibynnol – mae gen i ardd gyda ffrwythau, siwgr a bananas ac rwy'n gallu gwneud pethau fy hunan.'

Mae Anna wedi cael bywyd anodd, wedi colli ei dau blentyn i salwch ac wedi gwahanu oddi wrth ei gŵr (ar y pryd) yn dilyn y drasiedi. Diolch byth, fe wnaeth hi gyfarfod ei gŵr presennol ac mae'n gofalu am ei dri phlentyn ef, ac yn eu cyfrif fel ei phlant ei hun. Mae ei gŵr hefyd yn HIV positif, ac maent yn cefnogi ei gilydd.

'Rwy'n hapus iawn nawr,' medd Anna. 'Rwy'n edrych yn ôl ac yn gweld ffrindiau sydd wedi marw. Rwy'n meddwl fod Duw wedi bod yn help mawr i mi.'

### Trafodwch

- Beth yw prif anghenion Anna?
- Pa rai ohonynt sy'n cael eu diwallu a pha rai sydd heb eu cwrdd?



© Cymorth Cristnogol 2012